

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

5/3/19

Presennol: Alwyn E Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Lindsey Ellis-Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Karl Jones

Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Cyhoedd: Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1969 Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Alwyn Roberts a Heledd Jones.

1970 Buddiant: Nid oedd datganiadau buddiant.

1971 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/2/19.

1972 Materion y Clerc :

- i. Gwasanaeth Ambiwlans – er derbyn addewid, nid oedd ateb wedi dod gan y Gwasanaeth Ambiwlans am yr oedi yn ymateb i argyfwng ddechrau'r flwyddyn.
- ii. Gwaith wrth loches bws Tŷ'n Ddôl – cytunwyd i ddiolch i Swyddogion Gwynedd am ymateb mor fuan ac effeithiol i'r broblem o ddŵr yn cronni wrth y safle.
- iii. Adroddodd Alan Jones Evans ei fod yn deall fod cyn perchennog wedi ychwanegu "Cottage" i enw Cymraeg ar annedd lleol; cytunodd i wneud ymholiadau pellach.
- iv. Derbyniwyd neges gan Adran Cydymffurfiaeth Parc Cenedlaethol Eryri am waith a wnaethpwyd yn lleol.
- v. Lwybr y Cei: Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud gwaith difa ar y mwsogl y mis hwn. Cytunwyd i drafod Rhan 2 o'r prosiect plygu gwrych gyda'r is-gadeirydd.

1973 Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir, Alan Jones Evans a ddywedodd ei fod yn aros am gynllun i wella parcio wrth loches bws Tŷ'n Ddôl. Amlinellodd y newidiadau sydd yn yr arfaeth ar gyfer casglu deunydd ail-gylchu a ddylai arwain at welliannau sylweddol.

1974 Is Bwyllgor y Fynwent: Derbyniwyd adroddiad o is-bwyllgor 26/2/19

- Cytunodd swyddog y Fynwent i drefnu dyddiad er mwyn i'r Cynghorwyr glirio eitemau o'r fynwent.
- Cytunwyd fod y gwaith o glirio coed yn fwy nag a rag-dybiwyd a cheisir dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith gan gontractwyr lleol.
- Cytunwyd hefyd i geisio prisiau ar gyfer plygu'r gwrych yn nyrs y fynwent.
- Cytunwyd i ofyn i gontractwr lleol roi ffelt ar do'r sied.

1975 Materion Eiddo'r Cyngor: Un pris a ddaeth i law ar gyfer uwchraddio'r toiledau. Codwyd is-bwyllgor (Lindsey Ellis Edwards, Arwel Lloyd Jones, Alan Jones Evans) i drefnu manylion uwchraddio'r toiledau o dan gadeiryddiaeth Karl Jones. Rhoddir yr hawl i gyfethol a bydd y Clerc yn llunio cylch gorchwyl yr is-bwyllgor.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Alwyn E Jones

Panelli gwybodaeth: Rhoddodd Beryl Hughes Griffiths adroddiad ar y cynnydd yn y gwaith. Cytunwyd i anfon at Keith o'Brien i ofyn am drosglwyddo'r grant i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd nad ydyw'r caniatâd cynllunio wedi ei dderbyn hyd yn hyn.

1976 Materion ariannol:

- i. Adroddwyd y codwyd y swm o £526.50 o'r Noson Goffi. Elusen Ambiwlans Awyr a ddewiswyd gan y Cadeirydd ar gyfer derbyn y casgliad. Roedd yn noson lwyddiannus a diolchwyd yn gynnes iawn i Sion Llewelyn am ei gyflwyniad difyr ac addysgiadol.
- ii. Derbyniwyd manylion o anfonebau'r mis a chytunwyd i'w talu.

1977 Materion lleol:

Cytunwyd i gais i osod sgaffaldiau ym mynwent yr Eglwys er mwyn i waith trwsio cael ei gyflawni gan nodi y dylid parchu'r beddau wrth wneud y gwaith. Tynnir sylw fod angen blaenoriaethu trwsio porth yr eglwys.

Adroddodd Huw Antur am gyfarfod a gynhaliwyd gan Grŵp Sylfeini a Grŵp Cynefin ar 18 Chwefror 2019. Ymwelodd 25 o bobl ac fe ddaeth yn glir iawn fod angen tai fforddiadwy ar rent a thai fforddiadwy i'w prynu neu i'w hunan-adeiladu yn y pentref. Mae'r angen yn sylweddol, yn arbennig gan deuluoedd ifanc. Mae hyblygrwydd o ran y teip o adeilad yn y safleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd yn ardal Maesypanyd. Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wnaeth sefydlu Sylfeini ac mae diddordeb yn parhau gan y Cynghorwyr i fod yn rhan o'r drafodaeth.

1978 Partneriaeth Penllyn: Adroddodd y Cynrychiolwyr, Huw Antur a Alwyn E Jones y cynhaliwyd cyfarfod buddiol iawn yng Nghanolfan Henblas ar 22/2/19 pryd y daeth nifer sylweddol o fudiadau yn ymwneud â llesiant at ei gilydd i sôn am yr hyn sydd ar gael a sut y gellid ymestyn y ddarpariaeth ym Mhenllyn. Ffurfiwyd grŵp i weithredu ar hyn, gan roi ystyriaeth sut y gall Canolfan Henblas fod yn hwb i'r mudiadau hyn.

1979 Gohebiaeth:

1. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Derbyn gwybodaeth am fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031
2. **Arolygon:** Cyfeiriwyd at yr arolygon cyfredol i'w hateb ar lein:
 - i. Pŵer Solar cymunedol Cymreig rosie@awel.coop [www.egni.coop](mailto:rosie@awel.coop)
 - ii. Adolygiad Cludiant Cyhoeddus <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Arolwg-Bysiau-Lleol-gwynedd-2019.aspx>
 - iii. Arolwg gwasanaeth "tu allan i oriau" Meddygon Teulu <http://svy.at/hxqnn>

3. Eraill:

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Cadeirydd: Alwyn E Jones

- i. Llywodraeth Cymru – Cytunwyd i gefnogi cais Partneriaeth Penllyn am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu cyd-drefniadau ar gyfer pedair thema craidd, sef ymgysylltu â'r gymuned, cynyddu cyfranogiad dinasyddion ac ymgysylltu â democratiaeth leol, a gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau.
- ii. Derbyniwyd llythyron o ddiolch am gyfraniadau ariannol.
- iii. Derbyniwyd neges gan Gareth Evans (Bash Mawr Y Bala) yn rhoi gwybod am gyfarfod agored y bydd yn trefnu ar 25/2/19. Mynegwyd anfodlonrwydd fod SAG yn cyfarfod yn Nolgellau i drafod achlysur yn Y Bala ac yn disgwyl i gynrychiolwyr o Gynghorau Penllyn fynd yno yn ystod y dydd.
- iv. Cyhoeddwyd gwybodaeth am gymorth sydd ar gael gyda ffôn, iPad a chyfrifiadur yng Nghanolfan Henblas bob bore Mercher ym mis Mawrth.
- v. Nodwyd derbyn gwybodaeth am Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Un Llais Cymru 28/3/19
- vi. Bydd Huw Antur yn mynychu cyfarfod i rannu gwybodaeth am waith Partneriaeth Ogwen ar 8/3/19.
- vii. Cytunwyd ar gynnig i wrthwynebu claddu gwastraff niwclear.

Cadarnhau dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 2/4/19 yn y Neuadd Bentref